

DEWI EMRYS

(Parhad o'r dudalen flaen)

yr englyn mewn eisteddfod fawr yn Llanybydder. Y testun oedd **Yr Atom** (Yr oedd sôn mawr bryd hynny am holl'r atom.) Alun Cilie enillodd y wobwr a Dewi wedi ei blesio'n fawr gan yr englyn:

I'w ddwrn nad oes a'i ddirnad - y mae stôr
Grymsterau'r Cread;
O thyr ei glo chwythir gwlad
Yn anialwch mewn eiliad.

Darllenodd Dewi'r englyn yn uchel a phan ddaeth at y llinell olaf, fe daflodd y bwndel englynion oedd ganddo yn ei law i fyny i'r awyr a gadael i'r darnau papur ddisgyn i'r llwyfan - fel 'fall-out' y bom.

Cofio amdano wedyn yng ngorymdaith yr Orsedd ar brynawn tesog iawn (ni allaf gofio'r fan a'r lle na'r flwyddyn). Roedd y Prifardd Trefin yn cario'r cleddyf ac roedd e wedi bod yn wael ei iechyd a phwysau'r cledd a gwres yr hawl wedi mynd yn dreth arno. Yr oedd Dewi Emrys yn cerdded tu ôl iddo a dyma Drefin, yn ei gyfyngder, yn troi at Dewi a dweud,

'Cymer y cledd 'ma, Dewi.'

'Na chymra' i mo'r diawl!' oedd yr ateb a gafodd.

Yr oeddwn i'n athro yn Ysgol Talgarreg, gyda'r enwog Tom Stephens, pan ddaeth Dewi i ben ei yrfa gythryblus. Bu Tom Stephens yn gymorth mawr i Dewi pan oedd yr hen brifardd yn ceisio adennill ei barch a'i le yng nghalon ei genedl unwaith eto. Gydag amser fe'i derbyniwyd yn ôl gan ei enwad a dechreuodd bregethu. Daeth galwadau i ddarlithio a beirniadu mewn steddffodau. Ond gydag amser fe aeth y galw am ei wasanaeth yn y pulpud ac ar lwyfannau yn llai ac yn llai. Roedd rhywbeth wedi mynd ar goll.

Un diwrnod fe ddarganfu Tom Stephens nad oedd gan y bardd ddim glo yn y Bwthyn i'w gadw'n gynnes, er ei bod yn dywydd oer. Roedd e'n byw mewn angen, ond yn rhy falch i gwyno wrth neb. A dyma Tom Stephens yn penderfynu fod rhaid gwneud rhywbeth ar unwaith. Yr hyn a wnaeth oedd sgrifennu i'r *Cymro* a'r *Faner* i ddweud fod tysteb genedlaethol ar y gweill i gynorthwyo

Dewi. Fe wnaeth ei hunan yn Ysgrifennydd a minnau yn Drysorydd. Yr oedd Dewi, wrth gwrs, wedi bod yn Olygydd 'Pabell Awen', y *Cymro* ers blynyddoedd, a diau mai ef oedd yr athro beirdd gorau a fu gennym yng Nghymru erioed. Ac yn wir, fe gofiodd ei ddisgyblion a'i gyn-ddisgyblion am eu dyled iddo, ac fe gasglwyd swm gweddol o arian i'w gadw rhag angen, am gyfnod beth bynnag.

Ond roedd y diwedd yn ymyl. Fe gafodd Dewi fynd i Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1952 (ei steddffod olaf) mewn siwt deidi wedi ei phrynu ag arian o'r dysteb.

Ond roedd e wedi bod yn wael ei iechyd ers tro, a bu farw ar 20 Medi 1952 yn Ysbyty Aberystwyth ac fe'i claddwyd ym mynwent Pisgah, Talgarreg ac fe gerfiwyd, yn ddiweddarach, y cwpled trawiadol hwn o'i waith ef ei hun ar ei garreg fedd:

Melys heddwedi aml siom,
Distawrwydd wedi storom.

Ychydig iawn o bobl a welodd yn dda i ddod i'w angladd. Fel y dywedodd rhyw ohebydd dienw yn y *Cymro*, 'Ychydig berthnasau, ychydig gyfeillion ac ychydig gymdogion. A'r rhai sy'n honni bod yn gynheiliaid llên a diwylliant Cymru yn rhy brysur gyda'u pethau eraill i ddod ynghyd i ffarwelio ag un o'r tywysogion.'

Ie, un o'r tywysogion. Dyna oedd Dewi. Siaradodd y diweddar Barch. S. B. Jones (Y Cilie) yn ei angladd a dywedodd fel hyn amdano:

'Roedd tannau telyn hwn mor dynn, doedd dim rhyfedd yn y byd fod rhai ohonyn nhw'n torri weithiau.'

Cyfeirio yr oedd, yn ei ffordd raslon, at aml lithriadau'r bardd ar daith bywyd. A chofiais innau wrth ei

RAFFL CYMDEITHAS BOB OWEN

Gwelwch fod yna ddau lyfr raffl gwerth punt yr un y tu mewn i'r rhifyn. Rydym yn gofyn yn garedig ichi werthu'r tocynnau a dychwelyd y ddwy bunt (llai cost cludiant) i'r ysgrifennydd, y trysorydd neu'r golygydd cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os gallwn sicrhau eich cydweithrediad, mi fydd y cylchgrawn yn ddiogel am eleni o leiaf.

Diolch am eich cefnogaeth.

wrando am hen bennill o waith Hedd Wyn, bardd arall oedd wedi marw:

A phe medrwn, torrwn innau
Ar ei feddfaen mud,
Ddarlun telyn gyda'i thannau
Wedi'u torri i gyd.

Beth yw'r dyfarniad ar ei waith a'i fywyd? Fe fydd peth o'i waith yn aros. Bydd y darn tafodieithol i 'Pwllleri' a'r englynion 'Y Gorwel' a'r 'Ywen' yn dal yn ein cof. Go ychydig o'r Awdlau a'r pethau eraill sy'n mynd i oroesi rwy'n ofni. Ond diolch am Dewi - yr aderyn drycin a'r cymeriad mawr, lliwgar.

'Digwyddodd, darfu...'

Lluniais yr englyn hwn er cof amdano flynyddoedd yn ôl:

O'i ddisberod a'i dlodi - tros orwel
Troes arwr Pwllleri;
Ef a roes i'r Ywen fri,
Hi fydd do ar fedd Dewi.

AR WERTH

Transactions of the Hon.Soc. of Cymmrodorion 1920-21, 1921-22, 1922-23, 1923-24, 1926-27, 1936: £5.00 yr un;

Môn, cylchgrawn Sir, Cyf 1 Rhif 3, 1950; Cyf 2, Rhif 3 1959: £2.00;

The Grail (Y Greal) The Magazine of the Calvinistic Methodist Theological College, Vol 4 No 11, 1910: £1.00;

Y Greal (The Grail) Cylchgrawn Coleg Diwinyddol Aberystwyth, Cyf 1, Rhif 1, 1928: £2.00;

Ceredigion: Cyf V, rhif 4, 1967: £3.00;

Brynley F. Roberts, Gol: *Gwassanaeth Meir*: £4.50;

W. Jones-Edwards: *Ar Lethrau Ffair Rhos*: £4.00;

Deiniol Fychan: *Ymweliad Nain â Lerpwl*:

W. J. Davies, Talysarn: *Llin yn mygu*:

Cysyllter â Mari Ellis (01970) 617171.

Jones, R. J., *Odlau'r Paith*, 1937 cc: £1.00; Llwyd, Alan: *Rhwng Pen Llyn a Phenllyn*, 1976 cc sl: £2.00;

Roberts, Alan Lloyd: *Y March Hud*, 1971, cc, sl: £2.00;

Cyfres Barddoniaeth y Siroedd, Llyfrau'r Dryw 1959-64. *Awen Meirion* - coll y lleill yn lân ar wahân i ambell lofnod: £5.00 am y saith;

Jones, D. L. (Cynalaw): *Y Ffraethebydd*, neu Gymorth i Chwerthin, dd, cm: £1.00; Rees, T. Mardy: *Hwymor y Cymro*, 1922, cc: £1.00;

Lewis, y Parch T.: *Geirlyfr Cymraeg a Saesneg*, 1815 (ail arg.) cc, dalen neu ddwy yn eisiau o'r cefn:

Mee, A. (Gol.): *Who's Who in Wales*, arg laf 1921, cc: £5.00;

Seân de Búrca (cyfieithydd): *Sgéalta ó'n gComraig*, Dulyd 1948, cc: £5.00;

(Cyfrol o straeon byrion Cymraeg wedi'u cyfieithu i'r Wyddeleg: copi glân) cc = clawr caled; cm = clawr meddal; dd = dim dyddiad, cll = copi llyfrgell, sl = siaced lwch.

Cludiant yn ychwanegol.

Cystyllter â Howard Huws, 26 Pen y Ffridd, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LZ (01248) 351503 neu hhuws@uniongred.fsnet.co.uk

FFAIR LYFRAU'R CASGLWR

Cynhelir Ffair Lyfrau, Printiadau a Hen Fapiau/Recordiau

Ysgol y Berwyn, Y Bala - fore Sadwrn, 27 Medi o 10 o'r gloch tan 4

Bydd llyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru yno, ac os bydd gennych ddiddordeb mewn gwerthu eich llyfrau, bydd pob croeso i chi osod stondin yno. Codir £15 am bob stondin. Gadewch i'r Golygydd wybod os oes diddordeb gennych.